Hawdd ei Ddeall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Amrywiaeth a chynhwysiant mewn pleidiau gwleidyddol

## Canllaw ar beth mae pleidiau gwleidyddol yn gallu ei wneud i wella amrywiaeth ymgeiswyr mewn etholiadau llywodraeth leol a'r Senedd



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Lywodraeth Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Canllaw Amrywiaeth a Chynhwysiant ar gyfer pleidiau gwleidyddol cofrestredig**'.

**Mawrth 2025**

# Sut i ddefnyddio’r ddogfen yma

Dyma ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai y byddwch chi angen help i’w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi’n ei adnabod i’ch helpu.



Mae’r geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn gallu bod yn anodd eu deall. Mae beth mae’r holl eiriau mewn glas yn ei feddwl ar **dudalen 54**.

Lle mae’r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Llywodraeth Cymru**. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:

**Gwefan:** www.llyw.cymru/canllawiau-ar-amrywiaeth-chynhwysiant-ar-gyfer-pleidiau-gwleidyddol-cofrestredig

**E-bost:** DiwygiorSenedd@llyw.cymru

**© Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG51825, ISBN Digidol 978-1-83715-525-5**

Mae Hawdd ei Ddeall Cymru wedi gwneud y ddogfen yma yn hawdd ei deall gan ddefnyddio Photosymbols. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi’n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

Rhif trwydded Ffotosymbols 403527247

# Cynnwys

**Cyflwyniad** .... 4

**Am y canllaw yma** .... 6

**Rhan 1 – Cynllunio ar gyfer amrywiaeth** .... 17

**Rhan 2 – Casglu a chyhoeddi gwybodaeth am amrywiaeth** .... 28

**Rhan 3 - Cynnwys menywod** .... 31

**Templed arolwg** .... 37

Rhan 1. Cefndir ymgeisydd .... 37

Rhan 2. Gwybodaeth ymgeiswyr .... 44

**Geiriau Anodd** .... 54

# Cyflwyniad




Mae'r canllaw yma ar gyfer **pleidiau gwleidyddol** yng Nghymru. Mae'n helpu **pleidiau gwleidyddol** i wneud etholiadau yn fwy **amrywiol**.



Mae **plaid wleidyddol** yn grŵp o bobl sydd â syniadau tebyg am sut i redeg gwlad.




Mae **amrywiol** yn meddwl nad ydy pobl i gyd yr un fath. Mae pobl yn dod o gefndiroedd gwahanol, yn gwneud dewisiadau gwahanol ac mae ganddyn nhw anghenion gwahanol.



Fe ddylai **pleidiau gwleidyddol** gynrychioli pawb yng Nghymru.



Mae **pleidiau gwleidyddol** yn gallu helpu i wneud pethau'n decach. Maen nhw'n gallu gwneud hyn trwy wneud yn siŵr bod pobl o wahanol gefndiroedd yn gallu cymryd rhan mewn gwleidyddiaeth.



Mae'r canllaw yma yn gallu cyfeirio at wybodaeth neu ddogfennau gan sefydliadau eraill. Dydy Llywodraeth Cymru ddim bob amser yn rhannu eu barn.




Fe fydd y canllaw yma yn cael ei wirio o bryd i'w gilydd a'i ddiweddaru os oes angen. Fe fydd newidiadau'n cael eu rhannu ar wefan Llywodraeth Cymru. https://www.llyw.cymru/canllawiau-ar-amrywiaeth-chynhwysiant-ar-gyfer-pleidiau-gwleidyddol-cofrestredig

# Am y canllaw yma




Mae'r canllaw yma ar gyfer **pleidiau gwleidyddol** yng Nghymru.




Does dim rhaid iddyn nhw ddilyn y canllaw yma yn ôl y gyfraith. Ond mae'n bwysig eu bod yn gwneud hynny.



Mae llawer o waith wedi digwydd i wneud yn siŵr bod y Senedd yn rhedeg yn dda.

Senedd Cymru ydy'r Senedd. Y Senedd sydd yn:




- llunio cyfreithiau i Gymru




- cytuno ar drethi Cymru



- ac yn edrych ar waith Llywodraeth Cymru.



Mae Cymru wedi gwneud yn dda wrth wneud yn siŵr bod dynion a menywod yn gyfartal yn y Senedd.



Ond does yna ddim bob amser wedi bod llawer o aelodau o wahanol gefndiroedd ethnig neu gydag anableddau er enghraifft.



Rydyn ni eisiau parhau i arwain y ffordd.




Fe fydd llawer o newidiadau ar gyfer etholiadau'r Senedd yn 2026. Er enghraifft:



- Fe fydd mwy o Aelodau o'r Senedd – fe fydd yn mynd i fyny at 96 o aelodau.



- Fe fydd 16 **etholaeth** newydd i'r Senedd ar draws Cymru. Ardal bleidleisio ydy **etholaeth**.



- Fe fydd gan bob etholaeth 6 Aelod o'r Senedd.



Rydyn ni eisiau i'r Senedd fod yn fwy **amrywiol** a **chynhwysol**. Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod y Senedd yn cynrychioli holl bobl Cymru.



Mae **cynhwysiant** yn meddwl bod unrhyw un yn gallu cymryd rhan a chael cyfle teg.



Rydyn ni eisiau i **bleidiau gwleidyddol** fod yn fwy agored am beth maen nhw'n ei wneud i wneud yn siŵr eu bod yn **amrywiol**.



## Beth rydyn ni'n ei wybod am **amrywiaeth** mewn llywodraeth leol a'r Senedd nawr?



Ar hyn o bryd, does dim llawer o wybodaeth ar gael i'r cyhoedd gan **bleidiau gwleidyddol** am **amrywiaeth**.




Mae'r wybodaeth sydd gennym am **amrywiaeth** mewn llywodraeth leol gan bobl sydd wedi dewis ymateb i arolwg. Felly, efallai ei fod yn colli rhai pethau. Rydyn ni wedi darparu rhai enghreifftiau isod.



**Yn 2022, fe wnaethon ni weld ar gyfer llywodraeth leol:**



- Roedd 4 o bob 10 cynghorydd etholedig yn fenywod. Mewn cymdeithas, mae tua 5 o bob 10 o bobl yn fenywod.



- Roedd tua 5 o bob 10 cynghorydd yn 60 oed neu'n hŷn.



- Roedd bron pawb yn dod o grŵp ethnig gwyn. Mewn cymdeithas mae 94 o bob 100 o bobl yn dod o grŵp ethnig gwyn.



- Dywedodd ychydig dros 10 o bob 100 eu bod yn anabl. Mewn cymdeithas mae dros 20 o bobl ym mhob 100 yn anabl.



**Yn 2021 fe wnaethon ni ddarganfod yn y Senedd:**



- Roedd tua 4 o bob 10 Aelod etholedig yn fenywod.



- Roedd bron pawb yn dod o grŵp ethnig gwyn.




- Roedd tua 5 o bob 100 yn nodi yn gyhoeddus fel **LHDTQ+**.

> Mae **LHDTQ+** yn sefyll am grwpiau lesbiaidd, hoyw, deurywiol, trawsrywedd ol, queer a grwpiau eraill.
>
> Dyma gymuned o bobl sy'n rhannu profiadau oherwydd pwy maen nhw'n eu caru a phwy ydyn nhw.





- Doedd dim unrhyw wybodaeth am nifer yr Aelodau Anabl.



Mae’r ffigurau yma yn dangos nad oes digon o bobl anabl, menywod na phobl o gefndiroedd nad ydyn nhw yn wyn yng ngwleidyddiaeth Cymru.

**Mae 3 rhan i’r canllawiau yma:**



**Rhan 1** – canllaw i **bleidiau gwleidyddol** am wneud cynlluniau ar gyfer **amrywiaeth** mewn etholiadau lleol a chenedlaethol Cymru.



**Rhan 2** – canllaw i **bleidiau gwleidyddol** am gasglu a **chyhoeddi gwybodaeth** am **amrywiaeth** am ymgeiswyr y Senedd.



Mae **cyhoeddi** yn meddwl rhannu gwybodaeth gyda’r cyhoedd.



Mae **ymgeisydd** yn berson sy’n sefyll etholiad, maen nhw’n gofyn i bobl bleidleisio drostyn nhw.



**Rhan 3** – canllaw i **bleidiau gwleidyddol** am **ymgeiswyr benywaidd** ar gyfer etholiadau’r Senedd.

## Grwpiau o bobl i bleidiau gwleidyddol feddwl amdanyn nhw



Fe ddylai **pleidiau gwleidyddol** feddwl am y grwpiau penodol yma wrth wneud cynlluniau a chasglu **gwybodaeth** am amrywiaeth.

**Grwpiau sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig:**




Mae  nodweddion gwarchodedig yn cael eu diffinio gan **Ddeddf Cydraddoldeb 2010**. Dyma rai grwpiau o bobl a allai gael eu trin yn annheg oherwydd pethau fel:

- Oedran
- Anabledd
- **Ailbennu rhywedd** – Mae hyn yn meddwl newid eich rhyw
- Hil
- Crefydd neu gred
- Rhyw
- **Cyfeiriadedd rhywiol** – at bwy rydych chi'n cael eich denu.



**Grwpiau eraill:**

Mae yna grwpiau eraill o bobl sydd â rhai pethau yn gyffredin, fel:

- **Cefndir economaidd-gymdeithasol** - O ble rydych chi'n dod, a pha gyfleoedd oedd ar gael yn eich ardal i gael gwasanaethau, addysg a chyflogaeth da
- Cyflyrau iechyd
- **Statws neu hanes traws** – mae hyn yn meddwl sut mae rhywun yn nodi eu rhywedd i fod ac yn wahanol i enedigaeth
- Profiad gwleidyddol blaenorol
- Cyfrifoldebau gofalu
- Cyfrifoldeb rhieni
- Iaith.



Efallai y bydd **plaid wleidyddol** eisiau gofyn am gyngor cyfreithiol am hyn. Rhaid iddyn nhw ddilyn deddfau. Mae yna ddeddfau sy'n dweud beth maen nhw'n gallu a dim yn gallu ei wneud i:

- wella **amrywiaeth**
- a rhannu gwybodaeth.

# Rhan 1 – Cynllunio ar gyfer amrywiaeth



Mae'r rhan yma o'r canllaw yn cefnogi **pleidiau gwleidyddol** i:

- wneud cynlluniau am **amrywiaeth**
- a'u gosod yn eu lle.




Fe fyddai'r cynlluniau'n cael eu galw'n strategaeth **amrywiaeth** a **chynhwysiant**. Fe fyddai'n dangos beth fydd y blaid yn ei wneud i gynyddu **amrywiaeth** a **chynhwysiant**.



Dydy'r rhesymau dros wneud hyn ddim yn ymwneud ag **amrywiaeth** yn unig.



Mae hefyd i wneud yn siŵr bod ein gwleidyddion yn adlewyrchu ystod o brofiadau. Mae hyn yn ein helpu i wneud penderfyniadau gwell.



Mae hyn hefyd yn gallu helpu i adeiladu mwy o ymddiriedaeth yn ein **democratiaeth**. Mae **democratiaeth** yn meddwl system lle mae pobl yn cael dweud eu dweud ar sut mae pethau'n cael eu gwneud. Er enghraifft, pan fyddwn ni'n pleidleisio i ddewis arweinwyr mewn etholiadau.



Fe fydd yn cefnogi pobl i gymryd rhan mewn gwleidyddiaeth sydd wedi ei chael hi'n anodd gwneud hynny yn y gorffennol.

## Sut i wneud cynllun



Fe ddylai **pleidiau gwleidyddol** ddefnyddio ymchwil ac adroddiadau. Mae angen iddyn nhw ddysgu mwy am y grwpiau sy'n cael eu gadael allan.



Fe fydd yn eu helpu i ddeall yr heriau mae rhai pobl yn eu hwynebu wrth geisio cael eu hethol.




Fe ddylen nhw siarad â phobl i'w helpu. Gan gynnwys pobl o'r grwpiau sydd wedi eu gadael allan.



Fe ddylen nhw feddwl am y ffaith bod rhai pobl yn dod o nifer o wahanol grwpiau. Er enghraifft, efallai eu bod yn fenyw anabl o liw.

Fe ddylai'r cynllun siarad am:



- beth mae'r blaid eisiau ei gyflawni



- a'r camau y byddan nhw yn eu cymryd.




Efallai y bydd ganddyn nhw nodau bach a mawr y byddan mhw yn eu cyflawni ar hyd y ffordd.



Fe ddylai pawb yn y blaid fod yn ymrwymedig i weithio gyda'r cynllun.




Fe ddylai'r cynllun fod yn glir a siarad am pam mae **amrywiaeth** yn bwysig.



Fe ddylai'r cynllun ddweud:

- beth fydd y nod mawr ar y diwedd
- beth fydd yn cael ei wneud i gyrraedd yno
- a sut y byddan nhw yn gwybod eu bod wedi cyflawni beth roedden nhw yn bwriadu ei wneud.




Fe ddylai pleidiau ganolbwyntio ar y camau pwysicaf. Y gweithredoedd yma fyddai'r rhai sy'n cael effaith fawr cyn yr etholiad nesaf.

**Dyma rai o'r camau y dylid eu cymryd:**

1. **Cynllunio, wedi ei seilio ar ymchwil a gwybodaeth.**



Mae hyn yn gallu meddwl gwneud pethau fel:


- Gwneud rhywun yn **Gydlynydd Cydraddoldeb ac Amrywiaeth**.



- Dechrau edrych ar wybodaeth am **amrywiaeth ymgeiswyr**.




- Gosod nodau a gweithredoedd wedi eu seilio ar ymchwil a gwybodaeth. Gwneud yn siŵr eu bod yn cyd-fynd â nodau'r blaid.




- **Cyhoeddi** cynllun fel bod  pawb yn gallu gweld sut mae'r **blaid wleidyddol** yn bwriadu cyflawni'r nodau.

2. **Meddwl am ddiwylliant y sefydliad - mae hyn yn meddwl gwerthoedd a chredoau'r sefydliad.**



Mae hyn yn gallu meddwl gwneud pethau fel:

- Gwneud **amrywiaeth** yn rhan o **gyfansoddiad** y blaid - dyma set o reolau ac egwyddorion sy'n dweud sut y dylid rhedeg y blaid.




- Cael polisïau clir ar waith am **amrywiaeth**.



- Gwneud yn siŵr bod aelodau'r blaid yn deall **amrywiaeth**.




- Cael rheolau i gefnogi **amrywiaeth** i staff, gwirfoddolwyr, aelodau ac **ymgeiswyr**.




- Gwneud polisïau a chyfathrebu yn Gymraeg a Saesneg.



- Cymryd camau i gadw **ymgeiswyr** yn ddiogel rhag **camdriniaeth**, **gwahaniaethu** ac **aflonyddu rhywiol**.





**Camdriniaeth** ydy pan fydd rhywun yn dweud neu'n gwneud rhywbeth i'ch brifo neu wneud i chi deimlo'n ddrwg.

**Gwahaniaethu** ydy pan fyddwch chi'n cael eich trin yn wael neu'n annheg oherwydd pethau fel eich rhyw, hil, crefydd, anabledd neu hunaniaeth rywiol.

Mae **aflonyddu rhywiol** yn ymddygiad rhywiol diangen sy'n gwneud i rywun deimlo'n flin neu'n ofnus.




- Cael proses glir, deg ar gyfer delio gyda chwynion.




- Annog gweithio hyblyg i'w gwneud hi'n hawdd i bawb.

## 3. Sut fydd ymgeiswyr yn cael eu hasesu a’u dewis.



Mae hyn yn gallu meddwl gwneud pethau fel:

- Gwneud yn siŵr bod y ffordd y mae’r blaid yn dewis **ymgeiswyr** yn **hygyrch** ac yn **gynhwysol**.




Mae **hygyrch** yn meddwl gwneud yn siŵr bod pobl yn gallu defnyddio rhywbeth beth bynnag ydy eu hanghenion. Er enghraifft, gwneud gwybodaeth yn hawdd ei ddeall.



- Gofyn cwestiynau am eu sgiliau neu’r swydd. Dim am eu sefyllfa bersonol.



- Cefnogi pobl o grwpiau sydd wedi ei chael hi’n anodd cymryd rhan yn y gorffennol.



- Bod yn glir am y broses ddethol **ymgeiswyr** a sut maen nhw’n cael eu dewis.

## 4. Sut y bydd ymgeiswyr yn cael eu cefnogi?

Mae hyn yn gallu meddwl gwneud pethau fel:



- Cynnig cyfleoedd i gefnogi **ymgeiswyr** posibl i ddysgu'r swydd.



- Rhoi gwybodaeth am gymorth ariannol y gallai pobl ei gael.



- Meddwl am sut i amddiffyn **ymgeiswyr** rhag cael eu trin yn wael neu'n annheg.




- Rhoi cymorth i helpu **ymgeiswyr** gyda'u hanghenion.



- Cynnig cefnogaeth i **ymgeiswyr** sydd ddim yn cael eu hethol. Helpu nhw i barhau i gymryd rhan neu i ymgeisio eto.




- Annog pob **ymgeisydd** i ddysgu a defnyddio’r Gymraeg.




- Gwneud yn siŵr bod dogfennau ar gael mewn gwahanol fformatau. Fel iaith Arwyddion Prydain, Hawdd ei Ddeall, neu Braille.

## Cyhoeddi'r cynllun





Fe ddylai cynlluniau **pleidiau gwleidyddol** (sydd hefyd yn cael eu galw yn strategaethau) fod mewn fformatau **hygyrch**. Er enghraifft, yn hawdd ei ddeall.




Fe ddylen nhw gael eu **cyhoeddi** o leiaf 6 mis cyn etholiad Senedd 2026.



Fe ddylen nhw gael eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd. Cyn etholiadau yn y dyfodol.




Fe fydd gwybodaeth yn Rhan 2 hefyd yn helpu i lunio'r cynllun a'r camau sydd eu hangen.

# Rhan 2 – Casglu a chyhoeddi gwybodaeth am amrywiaeth



Mae hyn am gasglu a **chyhoeddi gwybodaeth** am **amrywiaeth** am **ymgeiswyr** y Senedd. Fe fydd hyn yn rhan o'r cynlluniau sydd wedi cael eu gwneud yn **Rhan 1**.




Mae'r wybodaeth yn gallu cael ei chasglu trwy arolwg. Rydyn ni wedi gwneud arolwg sydd yn gallu cael ei ddefnyddio fel templed. Mae ar ddiwedd y ddogfen yma ar **dudalen 37**.




Rhaid i **bleidiau gwleidyddol** ddilyn deddfau am gadw gwybodaeth yn ddiogel ac yn breifat. Mae'r deddfau yma yn cael eu galw yn **ddeddfau Diogelu Data**.



Fe ddylen nhw gael cyngor gan eu **Swyddog Diogelu Data** (DPO). Os nad oes ganddyn nhw un, fe ddylen nhw ddod o hyd i rywun i roi cyngor ar ddiogelu data.




Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) yn darparu canllawiau ar gyfer casglu a chyhoeddi gwybodaeth am amrywiaeth. Am ragor o wybodaeth, edrychwch ar wefan ICO: [https://cy.ico.org.uk](https://cy.ico.org.uk)



Fe ddylid **cyhoeddi gwybodaeth** am yr holl **ymgeiswyr**. Gan gynnwys y rhai sy'n dod yn Aelodau o'r Senedd, a'r rhai sydd ddim.




Ddylech chi ddim gallu adnabod pwy ydy'r **ymgeiswyr** unigol.




Fe ddylid **cyhoeddi'r** wybodaeth o fewn 6 wythnos i bob etholiad Senedd Cymru.



Mae **pleidiau gwleidyddol** yn gallu defnyddio'r wybodaeth i ddysgu os ydyn nhw'n gadael grwpiau o bobl allan.



Maen nhw'n gallu gweld pam a gweithio i newid hyn. Mae'r wybodaeth yma yn gallu cael ei roi yn eu cynlluniau.



Fe ddylai'r cynlluniau gael eu hadolygu yn rheolaidd.

# Rhan 3 - Cynnwys menywod



Fe ddylai Aelodau o'r Senedd gynrychioli poblogaeth Cymru. Er enghraifft, mae hanner y boblogaeth yn fenywod, felly fe ddylai hanner Aelodau'r Senedd fod yn fenywod.



Mae yna lawer o fanteision i gael mwy o fenywod. Fe fyddai'r manteision yma yn gwneud i'r Senedd weithio'n well.



Mae menywod yn gallu canolbwyntio ar wahanol faterion a dod â syniadau newydd i ddatrys problemau.




Maen nhw hefyd yn gallu cynnig safbwyntiau newydd ar bynciau fel diogelwch a threth a **pholisïau eraill**.



Mae angen cefnogi mwy o fenywod i wleidyddiaeth. Efallai y bydd **Rhan 1** o'r canllaw yn helpu gyda hyn.



Ar hyn o bryd, mae mwy o **ymgeiswyr** yn ddynion na menywod ar gyfer etholiadau'r Senedd.



Mae'n bosib y bydd hyn yn gwaethygu wrth i Aelodau'r Senedd gynyddu o 60 i 96.




Mae angen i **bleidiau gwleidyddol** feddwl am y camau maen nhw'n gallu eu cymryd i wneud y niferoedd yn fwy cytbwys.



Meddwl am sut maen nhw'n dewis **ymgeiswyr**.



Fe ddylai **pleidiau gwleidyddol** feddwl am sut i gynyddu nifer y menywod.



Does dim llawer o fenywod yn sefyll am etholiad yng Nghymru.



Mae **pleidiau gwleidyddol** yn gallu helpu trwy wneud gwleidyddiaeth yn rhywbeth lle mae menywod yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu parchu a'u cefnogi.

Mae yna bethau mae **pleidiau gwleidyddol** yn gallu eu gwneud fel:



- Gweithio gyda grwpiau sy'n cefnogi cydraddoldeb rhywiol.



- Cael mwy o fenywod mewn rolau arweinyddiaeth.




- Cynnig  gweithio hyblyg a pholisïau sy'n gyfeillgar i deuluoedd.



- Gwneud prosesau ymgeisio yn glir, ac yn **gynhwysol**.



- Darparu rhaglenni hyfforddi i fenywod.




- Cael rheolau clir i gadw menywod yn ddiogel.



Fe ddylai **pleidiau gwleidyddol** feddwl am beth arall maen nhw’n gallu ei wneud i gael mwy o fenywod yn cael eu hethol. Er enghraifft, defnyddio cwotâu gwirfoddol i fenywod.

## Cwotâu rhywedd



Mae **cwota** yn nifer penodol o rywbeth sy’n ofynnol neu sydd yn cael ei ganiatau. Mae **cwotâu rhywedd** mewn gwleidyddiaeth fel arfer yn meddwl bod nifer penodol o **ymgeiswyr** neu swyddogion etholedig sy’n fenywod.



Mae **cwotâu rhywedd** yn helpu mwy o fenywod i mewn i wleidyddiaeth. Mae dros 130 o wledydd yn eu defnyddio.




Mae **cwotâu gwirfoddol** yn rheolau mae pleidiau gwleidyddol yn eu gosod iddyn nhw eu hunain i wneud yn siŵr bod mwy o fenywod ar eu rhestrau **ymgeiswyr**.



Fe fyddai gwneud **cwotâu rhywedd** yn meddwl ei bod yn fwy tebygol bod hanner Aelodau'r Senedd yn fenywod.




Fe ddylai pleidiau gwleidyddol feddwl os ydyn nhw'n gallu defnyddio **cwotau rhywedd** i helpu i gyflawni hyn ar gyfer etholiad y Senedd yn 2026



Er enghraifft, maen nhw'n gallu gwneud yn siŵr eu bod yn dewis yr un nifer o ymgeiswyr sy'n fenywod â dynion. Fel bod ymgeiswyr sy'n fenywod yn cael gwell siawns o gael eu hethol.



Mae cwotâu yn gweithio orau pan fydd pob plaid yn eu cefnogi. Maen nhw hefyd yn helpu i ddod ag **ymgeiswyr** mwy **amrywiol** gyda phrofiadau gwahanol.




Rhaid i **bleidiau gwleidyddol** sicrhau bod unrhyw beth a wnânt yn **gyfreithlon.**

# Templed arolwg

## Rhan 1. Cefndir ymgeisydd




**1. Pa etholiadau ydych chi wedi sefyll fel ymgeisydd o'r blaen?**

- [ ] Etholiadau Llywodraeth Leol (Cyngor Cymuned, Tref, Sir neu Fwrdeistref Sirol)

- [ ] Etholiadau Cenedlaethol (Senedd neu Senedd y DU)

- [ ] Dydw i ddim wedi sefyll yn yr etholiad o'r blaen

- [ ] Arall (os gwelwch yn dda dywedwch beth)




**2. Ydych chi wedi dal swydd etholedig ar lefel genedlaethol neu leol yn y DU o'r blaen? Mae hyn yn meddwl eich bod wedi ennill mewn etholiad o'r blaen.**

☐ Ydw – rydw i wedi dal swydd etholedig o'r blaen

☐ Nac ydw – dydw i ddim wedi dal swydd etholedig

**Os ydych chi, dywedwch pa un - Ai Senedd, Senedd y DU neu lywodraeth leol oedd hi:**




**3. Beth ydy'r lefel uchaf o gymhwyster rydych chi wedi'i gael:**

☐ Gradd neu uwch (Mae hyn yn debyg i'r drydedd flwyddyn yn y brifysgol neu'n uwch – Lefel 6,7,8)

☐ TGAU (graddau D i G) neu is (Lefel mynediad, lefel 1)

☐ TGAU (graddau A* i C) neu gymhwyster tebyg (Lefel 2)

☐ Safon Uwch neu debyg (Lefel 3)

☐ Addysg uwch (Yn debyg i flwyddyn gyntaf ac ail yn y brifysgol– Lefel 4 a 5)

☐ Dim cymwysterau ffurfiol

☐ Arall (nodwch os gwelwch yn dda):

☐ Mae'n well gen i beidio â dweud



## 4. Ydych chi'n:

- [ ] Hunangyflogedig
- [ ] Di-waith: mewn addysg neu hyfforddiant
- [ ] Cyflog: Llawn Amser
- [ ] Di-waith: dim mewn addysg/hyfforddiant
- [ ] Cyflog: Rhan Amser
- [ ] Arall (nodwch os gwelwch yn dda)

- [ ] Mae'n well gen i beidio â dweud



5. **Beth ydy eich swydd bresennol?**



6. **Beth oedd swydd y person oedd yn ennill fwyaf yn eich cartref pan oeddech chi tua 14 oed?**



**7. Ydych chi'n gofalu am unrhyw un oherwydd bod ganddyn nhw gyflyrau neu salwch corfforol neu feddyliol hirdymor (heb gynnwys fel rhan o'ch swydd)**

- [ ] Nac ydw
- [ ] Ydw – dywedwch faint o oriau.

- [ ] Mae'n well gen i beidio â dweud



## 8. Ydych chi'n gyfrifol am blentyn neu blant 16 oed ac iau?

- [ ] Ydw, fi ydy'r unig un sy'n gyfrifol am blentyn neu blant 16 oed ac iau
- [ ] Ydw, rydw i'n rhannu cyfrifoldeb yn gyfartal â phartner am blentyn neu blant 16 oed ac iau
- [ ] Ydw, mae gen i'r prif gyfrifoldeb am blentyn neu blant 16 oed ac iau
- [ ] Ydw, mae gen i rywfaint o gyfrifoldeb am blentyn neu blant 16 oed ac iau
- [ ] Na, does gen i ddim unrhyw gyfrifoldeb rhieni



**9. Pa mor hen ydych chi**

Oed:

☐ Mae'n well gen i beidio â dweud



**10. Beth ydy eich rhyw?**

☐ Gwryw

☐ Benyw

☐ Mae'n well gen i beidio â dweud



**11. Ydych chi'n uniaethu fel traws, neu oes gennych chi hanes traws?**

Mae **traws** neu **trawsryweddol** yn meddwl pobl nad ydy eu rhywedd yr un fath â'r rhyw roedden nhw pan roedden  nhw wedi cael eu geni .

- ☐ Ydw
- ☐ Nac ydw
- ☐ Mae'n well gen i beidio â dweud

**12. Os ydych chi wedi ateb ie i gwestiwn 11. Os hoffech chi, disgrifiwch eich statws traws. Er enghraifft, anneuaidd, dyn traws, menyw draws**



## 13. Ydych chi'n:

☐ **Heterorywiol neu Syth** – rydych chi'n cael eich denu at bobl o'r rhyw arall.

☐ **Hoyw neu Lesbiaidd** – rydych chi'n cael eich denu at bobl yr un rhyw â chi.

☐ **Deurywiol** – rydych chi'n cael eich denu at ddynion a menywod.

☐ Cyfeiriadedd rhywiol arall (dywedwch beth).

☐ Mae'n well gen i beidio â dweud.



**14. Beth ydy eich grŵp ethnig? Er enghraifft, Gwyn, Du, Asiaidd.**

Ysgrifennwch yma:

☐ Mae'n well gen i beidio â dweud



**15. Beth ydy eich crefydd neu eich cred?**

Ysgrifennwch yma:

☐ Mae'n well gen i beidio â dweud



**16. Oes gennych chi unrhyw gyflyrau neu afiechydon iechyd corfforol neu feddyliol sy’n para neu mae disgwyl iddyn nhw bara am 12 mis neu fwy?**

- ☐ Oes
- ☐ Nac oes
- ☐ Dim yn gwybod
- ☐ Mae’n well gen i beidio â dweud



**17. Ydy diffyg addasiadau neu rwystrau eraill yn ei gwneud hi'n anodd cynnal gweithgareddau o ddydd i ddydd?**

- ☐ Ydy, cryn dipyn
- ☐ Ddim o gwbl
- ☐ Ydy, ychydig
- ☐ Mae'n well gen i beidio â dweud



**18. Os ydych chi wedi ateb ie i gwestiwn 16, oes unrhyw un o'r cyflyrau neu'r afiechydon yma yn effeithio arnoch chi yn unrhyw un o'r meysydd canlynol? (ticiwch bopeth sy'n berthnasol)**

- [ ] Golwg (er enghraifft dallineb neu olwg
- [ ] Cof
- [ ] Clyw (er enghraifft byddardod neu glyw rhannol)
- [ ] Iechyd meddwl
- [ ] Symudedd (er enghraifft cerdded pellteroedd byr neu ddringo grisiau)
- [ ] Stamina neu anadlu neu flinder

- [ ] Deheurwydd (er enghraifft codi a chario gwrthrychau, defnyddio bysellfwrdd)

- [ ] Yn gymdeithasol neu'n ymddygiadol (er enghraifft, yn gysylltiedig ag anhwylder sbectrwm awtistiaeth (ASD) sy'n cynnwys Asperger's, neu anhwylder gorfywiogrwydd diffyg sylw (ADHD)

- [ ] Dysgu neu ddeall neu ganolbwyntio

- [ ] Arall (os gwelwch yn dda dywedwch beth)

- [ ] Dim un o'r uchod

- [ ] Mae'n well gen i beidio â dweud



**19. Os ydych chi wedi ateb ie i gwestiwn 16, ydych chi'n ymwybodol o unrhyw gynlluniau cymorth sydd ar gael i ymgeiswyr anabl?**

- ☐ Ydw
- ☐ Nac ydw




**20. Ydych chi'n gallu deall, siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg? (ticiwch bopeth sy'n berthnasol)**

- ☐ Deall Cymraeg llafar
- ☐ Siarad Cymraeg
- ☐ Darllen Cymraeg
- ☐ Ysgrifennu Cymraeg
- ☐ Dim un o'r uchod
- ☐ Mae'n well gen i beidio â dweud



**21. Beth ydy'r iaith mae'n well gennych chi gyfathrebu ynddi yn broffesiynol?**

☐ Saesneg

☐ Cymraeg

☐ Iaith Arwyddion Prydain

☐ Arall (dywedwch beth):

# Geiriau Anodd

### Aflonyddu rhywiol

Mae aflonyddu rhywiol yn ymddygiad rhywiol diangen sy'n gwneud i rywun deimlo'n flin neu'n ofnus.

### Amrywiaeth

Mae hyn yn meddwl nad ydy pobl i gyd yr un fath. Mae pobl yn dod o wahanol gefndiroedd, yn gwneud dewisiadau gwahanol ac mae ganddyn nhw anghenion gwahanol.

### Anffafriaeth

Gwahaniaethu ydy pan fyddwch chi'n cael eich trin yn wael neu'n annheg oherwydd pethau fel eich rhyw, hil, crefydd, anabledd neu hunaniaeth rywiol.

### Camdriniaeth

Camdriniaeth ydy pan fydd rhywun yn dweud neu'n gwneud rhywbeth i'ch brifo neu'n gwneud i chi deimlo'n ddrwg. Mae camdriniaeth yn gallu bod yn wahanol fathau.

### Cynhwysiant

Mae hyn yn meddwl bod unrhyw un yn gallu cymryd rhan a chael cyfle teg.

### Cyhoeddi

Mae cyhoeddi yn meddwl rhannu gwybodaeth gyda'r cyhoedd.

### Hygyrch

Mae hyn yn meddwl gwneud yn siŵr bod pobl yn gallu defnyddio rhywbeth beth bynnag ydy eu hanghenion. Er enghraifft, gwneud gwybodaeth yn hawdd ei ddeall.

### LHDTQ+

Mae LHDTQ+ yn sefyll am grwpiau lesbiaidd, hoyw, deurywiol, trawsryweddol, queer a grwpiau eraill.

Dyma gymuned o bobl sy'n rhannu profiadau oherwydd pwy maen nhw'n ei garu a phwy ydyn nhw.

### Plaid wleidyddol

Mae plaid wleidyddol yn grŵp o bobl sydd â syniadau tebyg am sut i redeg gwlad.

### Ymgeisydd

Mae ymgeisydd yn berson sy'n sefyll etholiad, maen nhw'n gofyn i bobl bleidleisio drostyn nhw.